

Prifysgol Bangor

Gwasanaethau Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr

**Datganiad Safbwynt ar Gŵn Cymorth/Anifeiliaid
Therapi/Anifeiliaid Cefnogaeth Emosiynol**



Cŵn Cymorth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y ddeddf) yn nodi pan fo rhywun yn anabl ac felly'n cael ei amddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae cŵn cymorth wedi eu hyfforddi'n arbennig i gyflawni dyletswyddau penodol i bobl anabl (yn unol â'r diffiniad yn y ddeddf). Mae'r anifeiliaid hyn wedi eu cynnwys dan y ddeddfwriaeth a chaniateir yn gyfreithiol iddynt fod gyda'u perchennog, partner neu eu hyfforddwr ym mhob man (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2017).

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, a173, yn diffinio cŵn cymorth fel a ganlyn:

- Ci sydd wedi ei hyfforddi i dywys rhywun dall.
- Ci sydd wedi ei hyfforddi i gynorthwyo rhywun byddar.
- Ci sydd wedi ei hyfforddi gan elusen ragnodedig i gynorthwyo unigolyn anabl sydd ag anabledd sy'n cynnwys epilepsi neu anabledd arall sy'n effeithio ar symudedd, gallu i drin pethau â'r dwylo, cyd-drefniant corfforol neu allu i godi, cario neu symud eitemau pob dydd.
- Ci o gategori rhagnodedig sydd wedi ei hyfforddi i gynorthwyo rhywun sydd ag anabledd (ac eithrio yr hyn a nodwyd uchod) o fath rhagnodedig.

Mae hyn yn golygu bod cŵn sydd wedi eu hyfforddi a'u cofrestru gydag un o'r aelod-sefydliadau a restrir gan Assistance Dogs International (ADI) neu Assistance Animals UK (ADUK) yn bodloni'r meini prawf hyn.

Ar hyn o bryd, mae'r sefydliadau canlynol yn aelodau llawn cofrestredig o ADUK:

- Canine Partners
- Dog A.I.D
- Dogs for Good
- Cŵn Tywys
- Cŵn Clywed i Bobl Fyddar
- Cŵn Canfod Cyflyrau Meddygol
- Cŵn Cefnogi
- The Seeing Dogs Alliance

(Assistance Dogs UK, 2018)

Ceir sefydliadau sy'n hyfforddi Cŵn Cymorth yn ychwanegol at aelod-sefydliadau'r ADUK ond mae yna bryderon nad yw rhai cŵn cymorth a hyfforddwyd yn breifat yn cyrraedd safonau derbyniol, gyda goblygiadau i ddiogelwch y perchennog a'r cyhoedd. Yn ogystal, nid oes system ar waith i achredu cŵn cymorth wedi eu hyfforddi'n breifat (Bennett O & Desai P (2016)).

Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn diffinio 'ci o gategori rhagnodedig', mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi: Nid anifeiliaid anwes yw cŵn cymorth a chânt eu trin fel 'cymhorthion ategol' o dan y ddeddf. Mae cŵn cymorth yn cael hyfforddiant trwyadl sy'n golygu na fyddant yn crwydro'n rhydd o amgylch yr adeilad, a byddant yn eistedd neu'n gorwedd yn dawel ar y llawr wrth ymyl eu perchennog ac maent yn annhebygol o faeddu mewn man cyhoeddus (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2017).

Cŵn Therapi ac Iechyd Meddwl

Mae cynnydd sylweddol mewn defnyddio 'anifeiliaid therapi' neu 'anifeiliaid cefnogaeth emosiynol' i bobl ag amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys problemau iechyd meddwl ac awtistiaeth. Ond nid yw'r anifeiliaid hyn wedi eu hyfforddi'n benodol i gyflawni unrhyw dasg benodol, ond yn hytrach, eu swyddogaeth yw bod yn gysur neu'n gefnogaeth. Er bod hyn yn wahanol i anifail anwes, nid oes statws cyfreithiol i'r anifeiliaid hyn yn y DU ar hyn o bryd. Er bod rhywfaint o dystiolaeth y gall ymyriadau gydag anifeiliaid cymorth fod yn ddefnyddiol, mae'r mwyafrif o'r farn bod diffyg tystiolaeth wyddonol o hynny ar hyn o bryd (Audrestch et al, 2015; Kazdin, 2017; O'Haire, 2013; O'Haire et al, 2015; Serpell et al, 2017).

Safbwynt Prifysgol Bangor

Safbwynt Prifysgol Bangor ynglŷn â'r sefyllfa hon, felly, yw y caiff cŵn cymorth hyfforddedig sy'n mynd gyda myfyriwr i'r brifysgol fynd i mewn i adeiladau a chyfleusterau'r brifysgol, gan gynnwys neuaddau preswyl, yn unol â'r gyfraith.

Mae'r brifysgol yn disgwyl i berchnogion allu dangos bod eu ci cymorth wedi cael hyfforddiant trwyadl a'i fod yn bodloni'r meini prawf a bennir ar hyn o bryd gan y Ddeddf Cydraddoldeb ac sydd wedi eu cynnwys yng nghanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2017).

Os gellir darparu gwaith papur perthnasol, cânt eu hystyried ar sail unigol. Disgwylir i'r perchennog ddarparu llythyr ategol gan ei feddyg teulu, sicrwydd am hyfforddiant a lles y ci cymorth a thystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfoes, gweler y ffurflen [cytundeb ymddygiad](#). Cyfrifoldeb y perchennog yw atal a chywiro camymddygiad ci cymorth.

Ar hyn o bryd, nid yw anifeiliaid eraill yn dod o dan ddeddfwriaeth ac ni chaniateir iddynt ymuno â myfyrwyr mewn unrhyw adeilad neu gyfleuster sy'n eiddio i'r brifysgol na chael eu lletya yn adeiladau'r brifysgol. Er bod treulio amser gydag anifeiliaid a gofalu amdanynt yn gallu bod yn therapiwtig, nid ydym yn cefnogi dibyniaeth emosiynol ar anifail fel ffordd briodol o gael mynediad i amgylchedd dysgu. Rydym yn annog darpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol i gysylltu â'n Cynghorwyr Iechyd Meddwl i drafod strategaethau amgen.

Monitro ac Adolygu'r Polisi

Byddwn yn cadw'r polisi hwn dan adolygiad ac yn ei ddiwygio yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau'r llywodraeth.

Cyfeiriadau

Assistance Dogs UK (2018) <http://www.assistancedogs.org.uk/faqs>

Audrestch, H., Whelan, C., Grice, D., Asher, L., England, G., & Freeman, S. (2015). Recognizing the value of assistance dogs in society. *Disability and Health Journal*, 8(4), 469-474.

Bennett O & Desai P (2016) *Assistance dogs: issues*, Briefing Paper to the House of Commons, Number CBP 7668, 27 July 2016.

Equality and Human Rights Commission (2017). *Assistance dogs: A guide for all businesses*.

Equality Act 2010

Kazdin, A. E. (2017). Strategies to improve the evidence base of animal-assisted interventions. *Applied Developmental Science*, 21, 150–164. <https://doi-org.ezproxy.bangor.ac.uk/10.1080/10888691.2016.1191952>

O'Haire, M. E. (2013). Animal-assisted intervention for autism spectrum disorder: A systematic literature review. *Journal of Autism and Developmental Disorders*, 43, 1606–1622. <https://doi-org.ezproxy.bangor.ac.uk/10.1007/s10803-012-1707-5>

O'Haire, M.E., Guérin, N. A., & Kirkham, A. C. (2015). Animal-Assisted Intervention for trauma: A systematic literature review. *Frontiers in Psychology*, 6

Serpell, J., McCune, S., Gee, N., & Griffin, J. A. (2017). Current challenges to research on animal-assisted interventions. *Applied Developmental Science*, 21(3), 223–233. <https://doi-org.ezproxy.bangor.ac.uk/10.1080/10888691.2016.1262775>

Fersiwn 2, Diwygiwyd Gorffennaf 2020